



Gwasanaethau Tinitws i Oedolion Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth 2025/26

Cwblhawyd 39 o holiaduron gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Tinitws i Oedolion.
Roedd yr ymatebion yn ddienw ac fe'u casglwyd ar-lein ac ar bapur, yn Saesneg a
Chymraeg.

BODDHAD CYFFREDINOL

Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, gyda boddhad uchel ar draws y rhan fwyaf o feysydd gofal.

Canlyniadau allweddol:

- Roedd 100% yn fodlon â'u hapwyntiad cyffredinol
- Roedd 100% yn teimlo bod yr esboniadau'n glir ac yn ddealladwy
- Roedd 100% yn teimlo'n rhan o benderfyniadau am eu gofal

GWYBODAETH

Roedd lefel boddhad gyfartalog o **99.5%** o ran y wybodaeth ysgrifenedig a llafar a dderbyniwyd.

Roedd cleifion yn gwerthfawrogi esboniadau clir, gwybodaeth ysgrifenedig, a gofal tinitws ymarferol.

'Esboniwyd popeth yn glir gam wrth gam'

'Rhoddwyd yr amser a'r lle i fi ddeall tinitws yn well'

Ein Hymateb

- Byddwn yn parhau i ddatblygu adnoddau gwybodaeth am tinitws ar gyfer apwyntiadau ac ar-lein.

DIOLCH

Diolch i bawb a gwblhaodd yr arolwg. Mae eich adborth yn ein helpu i gydnabod beth sy'n gweithio'n dda a lle gallwn barhau i wella'r Gwasanaeth Tinitws i Oedolion.

HYGYRCHEDD

Roedd cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â chyfathrebu â'r adran a'r broses apwyntiadau. Roedd boddhad â chyfathrebu yn **98%**, a boddhad ag amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau yn **92%**

'Proffesiynol iawn. Doedd dim rhaid aros yn hir i gael fy ngweld. Defnyddiol iawn'

'Proses wedi'i rheoli'n dda iawn, roedd yr awdiolegydd yn gyfeillgar, yn gwrandao'n ofalus ar yr hyn oedd gen i i'w ddweud ac yn rhoi cyngor clir y gallwn ei ddilyn'

Ein Hymateb

- Byddwn yn parhau i adolygu mynediad at apwyntiadau a chynnal cyfathrebu clir â chleifion i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth amserol a phriodol.

GOFAL A THRINIAETH STAFF

Rhoddodd cleifion adborth rhagorol am broffesiynoldeb, gwybodaeth a hygyrchedd y staff. Dywedodd llawer o gleifion eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt, yn eu deall a'u cymryd o ddifrif.

- Roedd 100% yn fodlon â phroffesiynoldeb y staff
- Roedd 100% yn fodlon â'r cyfleoedd i drafod pryderon
- Roedd 100% yn fodlon â'r cymorth a gynigiwyd ar gyfer anawsterau

'Staff deallus, cyfeillgar, amyneddgar a chymwynasgar iawn'

'Fe wnaethon nhw gymryd fy mhryderon o ddifrif a gwrandao ama i'



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board